

# Her Dirwyst

Cwricwlwm Cymru  
(gellir gwahaniaethu ar gyfer CA2, 3  
ac ar gyfer AAA\*)



CANOLFAN  
DDIWYLLIANT  
**CONWY**  
CULTURE  
CENTRE



**Bydd yr her hon yn canolbwyntio ar sgiliau ymchwil, creadigrwydd a chyfathrebu eich disgyblion, tra'n darparu profiad dysgu bywiog, hwyliog a boddhaus.**

**Tîm Canolfan Ddiwylliant Conwy sydd wedi gosod yr her.**

## **Cwricwlwm Cymru**

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu i ategu Cwricwlwm Cymru. O'r 12 egwyddor pedagogaidd a amlygwyd yn 'Dyfodol Llwyddiannus', mae'r adnodd hwn yn:

- creu cyd-destun dilys ar gyfer dysgu
- annog dysgwyr i dderbyn cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain
- cefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol a pherthnasoedd cadarnhaol
- annog cydweithredu
- hefyd yn annog ystod eang o ddulliau addysgu, hybu datrys problemau, creu a meddwl yn greadigol a defnyddio ac atgyfnerthu dysgu trawsgwricwlaidd ar draws y chwech maes dysgu.

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu ar drywydd y pedwar diben yn y cwricwlwm, datblygu pobl ifanc fel:

- dysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn barod i ddysgu drwy gydol eu bywydau
- cyfranwyr mentrus, creadigol, yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinasyddion moesegol, hysbys Cymru a'r byd.
- unigolion iach, hyderus, yn barod i arwain bywydau llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Mae'r adnodd hwn yn gallu diwallu'r chwech maes dysgu a phrofiad. Mae'n annog cyfraniadau mentrus a chreadigol a datblygu sgiliau sydd â galw amdanynt gan gyflogwyr.

## Y Celfyddydau Mynegiannol

Mae yna gyfleoedd ar gyfer defnyddio pum disgyblaeth celf, dawn, drama, ffilm a chyfryngau digidol a cherddoriaeth ar gyfer ymgysylltu'n gorfforol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r adnodd hwn yn creu profiad ystyrion fydd yn archwilio amrywiaeth a newidiadau diwylliannol drwy hanes Cymreig lleol. Bydd gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd yn cael eu datblygu drwy'r her, yn galluogi plant i ymgysylltu gyda materion sydd wedi datblygu pobl, Cymru a'r byd, a fydd yn parhau i gael effaith ar eu bywydau.

## Iechyd a Lles

Mae'r Fantell hon yn cynnig cipolwg ar heriau corfforol a chymdeithasol sy'n effeithio ar blant yn eu bywydau bob dydd. Mae'r cyd-destun hwn yn caniatáu ar gyfer trafodaeth a thrafodaethau cymharol sy'n galluogi dysgwyr i ddeall a gwerthfawrogi profiadau ac ymateb eu hunain ac eraill i bwysau a galw corfforol a chymdeithasol. Mae'r adnodd cydweithredol hwn yn darparu mynediad i ddysgwyr i sefyllfa gyflogaeth realistig ble gallant ddysgu am waith a'r sgiliau o werth yn y gweithle.

## Y Dyniaethau

Mae'r Fantell hon yn darparu cyd-destun a rhywfaint o ddulliau corfforol i drochi dysgwyr mewn busnes sy'n seiliedig ar wasanaeth. Mae crwydro o amgylch adeilad Canolfan Ddiwylliant Conwy yn gyfle i werthuso'r dyluniad, y gofod a'i ddefnydd. Bydd yr elfennau gwerthuso yn galluogi'r plant i arsylwi a phrofi sut mae pobl yn rhyngweithio gyda'r amgylchedd, a pha agweddau o fusnes y gellir ei newid i wneud gwelliannau er mwyn cynyddu twf economaidd. Bydd yr agwedd amgueddfa yn galluogi iddynt archwilio bywyd, gwaith a siâp cymdeithasol leol drwy hanes. Bydd cyd-destun lleol yr adnodd yma'n rhoi ymdeimlad o berthyn a balchder.

## Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Bydd y Fantell hon yn datblygu gwybodaeth a sgiliau gwrando a darllen, siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd cyfrifoldeb ymchwil a threfniadol ac elfennau ysgrifennu creadigol a chyfathrebu yn ysgogi hyder a sgiliau mewn cyd-destun mentrus.


## Mathemateg a Rhifedd

Mae'r adnodd hwn yn rhoi cyfle i ymgysylltu mewn gweithgareddau tîm ac unigol i ddefnyddio a gwella gwybodaeth mathemateg a sgiliau rhifedd drwy gysyniadau bywyd gwirioneddol. O ymchwil a chynllunio i dasgau dylunio a gwerthuso. O gadw cyfrif syml ac arsylwadau i dablau, graffiau a dehongliad pellach o ddata amrwd.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Drwy ddefnyddio eu profiad personol a thrwy edrych ar y Ganolfan trwy lygaid pobl sydd ag amrywiaeth o anghenion, mae gan y dysgwyr gyfle unigryw i ymestyn eu sgiliau arsylwi, gwerthuso, empathi a diplomyddiaeth. Mae yna gyfle i ymchwilio anabledau ac anghenion gwahanol, yn fiolegol ac yn seicolegol. O edrych yn syml iawn ar anghenion bodau dynol, drwodd i'r dulliau o ragori ar ddisgwyliadau a chreu profiad wirioneddol emosiynol. Gallai ymchwilio i'r arddangosfeydd ysgogi myfyrwyr i ddylunio eu harddangosfa eu hunain.

# Ein cenhadaeth genedlaethol yw uchelgais, arloesi a hyder.



“ Ein cyfrifoldeb ar y cyd yw ysbrydoli, cynnwys a chymell y genhedlaeth nesaf o ddysgwyr wrth i ni geisio datblygu Cymru mwy disglair, mwy ffyniannus. Rydym yn byw mewn cyfnod heriol ac ni fydd yn hawdd datblygu system yr ydym i gyd yn falch ohono. Ond mae ein gweledigaeth ar gyfer addysg yn un uchelgeisiol. Mae ein cenedl angen unigolion angerddol a chytbwys sydd nid yn unig â gallu llythrennedd, rhifedd a digidol, ond hefyd y sgiliau meddwl yn feirniadol, dychymyg a gwydnwch i ragori mewn – a chreu – swyddi newydd yfory. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed ac nad yw yr un plentyn yn cael ei adael ar ôl. ”

Kirsty Williams - AC Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

# Y Cleient

Mae Canolfan Ddiwylliant Conwy yn ganolfan ragoriaeth arloesol ar gyfer diwylliant, treftadaeth a'r celfyddydau yn Sir Conwy a leolir ar safle Ysgol Bodlondeb yn nhref Conwy.

Mae'r Ganolfan yn cynnwys archifdy'r sir, llyfrgell ardal, arddangosfeydd treftadaeth, canolfan gelfyddydau gymunedol, ystafell gyfarfod a chaffi.

Mae'n fan cychwyn gwych ar gyfer archwilio hanes cyfoethog Sir Conwy. Mae'r arddangosiadau yn arwain ymwelwyr drwy bum mil o flynyddoedd o hanes ac mae'n cynnwys gwrthrychau unigryw, gwaith celf hyfryd a dehongliad rhyngweithiol sy'n addas i'r teulu cyfan.

Llyfrgell a llawer mwy; dyma loches, lle i ymlacio neu i wneud tipyn o waith. Rhywle i eistedd ac ymlacio gyda phaned a llyfr da. Ydych chi erioed wedi mynd ati i ymchwilio i hanes lleol neu hanes eich teulu? Dyma'r cyfle perffaith, gyda staff cyfeillgar wrth law i'ch helpu i ddechrau arni.

Mae'r manau sydd wedi'u tirlunio o amgylch y Ganolfan yn cynnwys gardd synhwyraidd heddychlon gyda llwybrau a seddi hygyrch. Gallwch wrando ar leisiau lleol yn adrodd eu hanesion wrth i chi edmygu'r planhigion meddyginiaethol yn yr Ardd Berlysiâu, sy'n cydnabod hanes mynachaid cyfoethog Conwy cyn y castell.

# Yr Her

Mae Canolfan Ddiwylliant Conwy wedi'i dylunio i fod yn hygyrch a dirwystr i holl ymwelwyr.

Eich her yw ymchwilio a gwerthuso hyn a darparu adolygiad ac/neu gyflwyniad i adrodd ar eich canfyddiadau. Bydd tîm Canolfan Ddiwylliant Conwy ar gael i helpu gyda'ch ymchwiliad a bydd yn darparu cynulleidfa ar gyfer eich cyflwyniad ac adolygiad.

Mae'n rhaid i Ganolfan fel hyn fod yn fywiog, diddorol, hygyrch ac yn ddirwystr.

Bydd yna ddylifiad tymhorol o ymwelwyr ar wyliau neu deithiau dydd, ond mae marchnad fawr a hanfodol i'r Ganolfan yn lleol. Drwy gyfuno gwasanaethau – llyfrgell, amgueddfa ac archifau – bydd y Ganolfan yn denu cynulleidfa leol, ond mae'n hanfodol anelu am argraff gyntaf ardderchog, cwrdd ag anghenion pawb a'u hannog i ddychwelyd. Mae'n rhaid i'r Ganolfan gwrdd â disgwyliadau holl ymwelwyr a bod yn gyson yn ei safon gofal ac ansawdd. Bydd hefyd angen amrywiad, arloesi, newid ac adnewyddu.

Isod rhestrir rhai pethau y gall busnes ei wneud i fod yn llwyddiannus. Gall busnesau gael:

- cyfleusterau glân, helaeth ac wedi eu dylunio'n ofalus
- digwyddiadau rheolaidd ac amrywiol
- gweithgareddau tymhorol neu wedi eu targedu
- gweithgareddau i gynulleidfaeoddd penodol
- arddangosfeydd newidiol
- arddangosfeydd sy'n apelio i'r holl synhwyrâu
- caffi ardderchog
- gwasanaeth ymwelwyr ardderchog
- man tawelach, diogel
- ethos emgylcheddol gynaliadwy, moesegol a theg i bawb
- profiadau arloesol
- rheswm cyffrous neu hanfodol i ddychwelyd
- cyfathrebu rhagorol

Bydd tîm Canolfan Ddiwylliant Conwy yn wynebu sawl gwerthusiad sy'n edrych ar hygyrchedd corfforol a deallus. Maent yn anelu i gyflawni statws hygyrchedd, acolâdau twristiaeth a chymeradwyaeth gan ymwelwyr ag amrywiol anghenion. Mae'r [pecyn asesu VAQUA](https://businesswales.gov.wales/tourism/sites/tourism/files/documents/WG23946%20Visitor%20Attractions%20Grading%20Brochure%20E%5BPDF%5D.pdf) [https://businesswales.gov.wales/tourism/sites/tourism/files/documents/WG23946 Visitor Attractions Grading Brochure E %5BPDF%5D.pdf](https://businesswales.gov.wales/tourism/sites/tourism/files/documents/WG23946%20Visitor%20Attractions%20Grading%20Brochure%20E%5BPDF%5D.pdf) a [phēcyn asesu Cyfeillgar i Ddementia](https://www.dta.com.au/wp-content/uploads/2017/02/DFC-EAT-Handbook.pdf) <https://www.dta.com.au/wp-content/uploads/2017/02/DFC-EAT-Handbook.pdf> yn ddogfennau defnyddiol i fyfyrwyr eu darllen a'u trafod cyn eu hymweliad.

# Y Camau

Gall yr her hon fod yn dasg unigol neu'n dasg tîm ond gyda'r cyfle i ddenu cryfderau unigol a chefnogi gwendidau'r naill a'r llall.

Rydym wedi awgrymu'r camau canlynol o ddatblygu a gwerthuso. Mae yna lwyth o becynnau a thechnegau y gellir eu harchwilio a'u defnyddio yn ystod pob cam. Gwiriwch y rhestr hon **Euan's Guide** <https://advisor.museumsandheritage.com/features/euans-guide-disabled-people-give-their-top-tips-for-accessibility-in-museums/> a'r rhain **Taflenni Ffeithiau Ymwybyddiaeth Anabledau** <https://www.remploy.co.uk/employers/resources/disability-awareness-factsheets>. Rydym yn awgrymu fod gan bob myfyriwr ddyddlyfr ble maent yn cofnodi pob cam o'r her a'r hyn maent wedi'i ddysgu. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'u hadlewyrchiad ar y diwedd.

## 1. Tîm

Beth sy'n gwneud i dîm weithio? Beth yw eich cryfderau unigol? Sut mae timau'n cael eu strwythuro?

## 2. Y Cynllun

Ydych chi wedi bod mewn amgueddfa o'r blaen? Sut oedd y profiad? Ydych chi erioed wedi cael profiad gwael fel ymwelydd? Ydych chi wedi cael profiad ardderchog? Cynhaliwch drafodaeth dda a sicrhewch fod pawb yn cael cyfle i gyfrannu. Trefnwch eich ymweliad cyntaf i Ganolfan Ddiwylliant Conwy drwy anfon e-bost at **LIC@conwy.gov.uk**. Beth ydych chi angen ei wybod? Beth yw rôl eich tîm ac unigolion? Ydych chi am wneud y Siwrnai Ymwelwyr gyda'ch gilydd neu rannu'r Foment o Wirionedd rhyngoch chi?

**Beth yw moment o wirionedd?**

*Drwy reoli profiad cwsmer, mae moment o wirionedd yn cynrychioli pwyntiau ar siwrnai'r cwsmer pan mae barn am y profiad hwnnw yn cael ei ffurfio.*

### 3. Siwrnai'r Ymwelydd

Ymweld â Chanolfan Ddiwylliant Conwy. Cofnodwch eich barn a'ch arsylwadau. Gwnewch rhai awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Archwiliwch yr arddangosfeydd a mwynhewch eich ymweliad.

### 4. Dadansoddi ac Adolygu

Ydy eich barn a'r arsylwadau yn cael eu rhannu o fewn y tîm? Sut ydych chi am gyflwyno eich canfyddiadau? Ydych chi'n bod yn deg ac yn realistig am eich awgrymiadau? Sut ydych chi'n mynd i gyfleu hynny i'r panel? Rhannwch yr elfennau ar gyfer y cyflwyniad – er enghraifft, digidol, gweledol, cyflwyniad, adolygiad manwl a chrynodeb. Pwy ddylai wneud beth?

### 5. Dangoswch yr Amser ac Adrodd yn Ôl

Gallech:

Dylech adolygu, ffilmio a golygu eich adolygiad a'i e-bostio i

**LIC@conwy.gov.uk**

Neu lenwi adroddiad tebyg i'r un a ddefnyddir gan VisitBritain – VAQAS (Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr), enghraifft wedi'i chynnwys.

Yn lle hyn, gallwch drefnu i ymweld â'r Ganolfan eto a'i gyflwyno i dîm y Ganolfan. (Dylech gyrraedd Canolfan Ddiwylliant Conwy gyda digon o amser i baratoi ac ymlacio. Cyflwynwch eich adolygiad. Gofynnwch am gwestiynau, ac yna atebwch nhw).

Unwaith y byddwch wedi'i gyflwyno, byddwch yn falch a llongyfarch eich hun.

### 6. Gwerthusiad

Cwblhewch eich dyddlyfrau unigol. Paratowch gyflwyniad adlewyrchol 5 munud yn amlygu'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu.



# Siwrnai'r Ymwelydd – Canolfan Ddiwylliant Conwy

Defnyddiwch y daflen ganlynol i gofnodi eich canfyddiadau. Mae'r map wedi'i ddarparu i chi labelu neu ychwanegu cyfeirnod i nodi mannau penodol a gysylltwyd â'ch sylwadau.

## Cwestiynau y gallech eu gofyn

### Hygyrchedd Corfforol

A oes yna le i symud o gwmpas?

A yw'n lân ac yn daclus?

A yw wedi'i oleuo'n dda?

A ydych yn gallu ei glywed?

A yw'n gweithio?

A oes yna fannau tawel, llonydd i fynd iddynt?

A ddylid cael sedd yma?

A oes yna fowlen ddŵr i gŵn?

A oes yna orsaf ail-lenwi dŵr yfed am ddim?

### Hygyrchedd Gwybodus

Ydy'r wybodaeth: yn gywir, mewn print bras, Braille, BSL, dwyieithog, clywedol, gweledol ac ati?

Ydy'r arwyddion: mewn print bras, Braille, BSL, dwyieithog, clywedol, gweledol ac ati?

Ydy'r staff yn wybodus ac yn amyneddgar?

## Er enghraifft

Yr Eiliad Dyngedfennol	Sgôr	Barn Gadarnhaol	Barn Negyddol	Beth gellir ei wneud i wella'r profiad?	Cyfeirnod Map
Cyrraedd		Adeilad modern trawiadol	Roeddwn yn ei chael yn eithaf anodd dod o hyd i arddangosfeydd yr amgueddfa ac roedd pobl yn eistedd o flaen ambell waith celf	Symud ardat eistedd i ffwrdd o'r gwaith celf. Gostwng rhai o'r gwaith celf (neu labeli cysylltiol) er mwyn gallu ei ddarllen yn glir.	2a 2b
Argraff gyntaf	5				
Cynllun	3	Cafodd gwybodaeth ei chyflwyno mewn amryw o ffyrdd.			
Gwybodaeth	4				

# Moment o Wirionedd Canolfan Ddiwylliant Conwy

0 = annerbyniol  
4 = ansawdd da iawn

1 = ansawdd derbynol  
5 = ansawdd ardderchog

2 = ansawdd eithaf da

3 = ansawdd da

Moment o Wirionedd	Sgôr	Barn Gadarnhaol	Barn Negyddol	Beth ellir ei wneud i wella'r profiad?	Cyfeirnod Map
<b>Cyn Cyrraedd</b> Ar-lein					
<b>Cyrraedd</b> Argraff gyntaf Cynllun Gwybodaeth					
<b>Llyfrgell</b> Cynllun Ystod cynnwys Cyflwyniad Glanweithdra Gwybodaeth ( <i>cywir, mewn print bras, Braille, BSL, dwyieithog, clywedol, gweledol</i> )					
<b>Arddangosfeydd</b> <b>Amgueddfa</b> Cynllun Ystod cynnwys Cyflwyniad Glanweithdra Gwybodaeth ( <i>cywir, mewn print bras, Braille, BSL, dwyieithog, clywedol, gweledol</i> )					
<b>Toiledau</b> Cynnal a Chadw Glanweithdra					
<b>Caffi</b> Cynnal a Chadw Glanweithdra Bwydlen ac ystod o fwyd Ansawdd					
<b>Staff</b> Gofal cwsmer Gwybodaeth					
<b>Gardd Synhwraidd</b> Arwyddion Cynllun Ansawdd Hygyrchedd y Planhigion Gosodiadau					

